Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

☎ (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

E-mail:
enquiries@boundaries.wales
www.ldbc.gov.wales

Cadeirydd
Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

03 Ionawr 2020

Annwyl Mr Griffiths AC,

Diolch am wahodd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 9 Ionawr 2020.

I baratoi ar gyfer y 9fed, atodir tystiolaeth ysgrifenedig gan y Comisiwn ynglŷn â Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Rwyf hefyd wedi cynnwys dadansoddiad y Comisiwn o ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed ac effaith bosibl hynny ar arolygon etholiadol presennol y Comisiwn.

**Shereen Williams**

*Prif Weithredwr / Chief Executive*
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Local Democracy and Boundary Commission for Wales

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**
**Cyflwyniad Tystiolaeth Ysgrifenedig**

## Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn)

1. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd ar ei ffurf wreiddiol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac o dan ei enw a'i swyddogaethau presennol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Dyletswydd y Comisiwn o dan y ddeddfwriaeth yw monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru er mwyn ystyried a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

2. Mae fframwaith wedi'i gytuno rhwng y Comisiwn a'i Is-adran Noddi yn Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol). Mae hwn yn amlinellu'r fframwaith y mae'r Comisiwn yn gweithredu ynddo ac yn manylu ar y telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru yn eu dilyn i ddarparu cymorth grant i'r Comisiwn.

3. Bob blwyddyn, mae Gweinidogion Cymru yn amlinellu nodau polisi a meysydd dangosyddion perfformiad allweddol y Llywodraeth trwy gyfrwng Llythyr Cylch Gorchwyl at y Comisiwn. Mae'r llythyr Cylch Gorchwyl hefyd yn cynnwys manylion y ffigur cymorth grant a bleidleisiwyd a chyfansymiau rheolaeth gyllidebol cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

4. Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd yn cefnogi'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, sy'n gyfrifol am gynnal arolygon o etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cael ei hariannu ar wahân gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y gwaith hwnnw.

## Y Trefniadau ar gyfer cynnal Arolygon Etholiadol o Brif Awdurdodau

5. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn mynnu bod y Comisiwn yn cynnal arolwg o drefniadau etholiadol pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Dechreuodd y cyfnod deng mlynedd ar ddechrau mis Hydref 2013 ac mae'n dod i ben ar ddiwedd mis Medi 2023.

6. Yn dilyn cais gan Weinidogion i ohirio dechrau'r rhaglen, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd at y Comisiwn ym mis Mehefin 2016 i ofyn iddo gychwyn rhaglen o arolygon etholiadol i'w chwblhau mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022. Mae'r Comisiwn wedi gwneud cryn gynnydd ers hynny wrth ymgymryd â'r rhaglen gywasgedig hon o arolygon o drefniadau etholiadol y 22 prif awdurdod yng Nghymru. Hyd yma, mae'r Comisiwn wedi cyflwyno 11 Adroddiad Argymhellion Terfynol i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, sy'n aros am Orchmynion ar hyn o bryd. Bydd yr adroddiadau sy'n weddill yn cael eu cyflwyno erbyn yr haf 2021 fan bellaf i ganiatáu digon o amser i wneud y paratoadau ar gyfer yr etholiadau.

**Adrannau'r Bil sy'n cael effaith uniongyrchol ar waith y Comisiwn**

7. Mae Adrannau o fewn rhannau 1, 7 a 9 y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar waith y Comisiwn, felly rydym wedi canolbwyntio ar y darpariaethau hynny.

**Rhan 1 – Dwy system bleidleisio ac adrannau perthnasol sy'n ymwneud â hi a Rhan 7 – Cyfuno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd**

8. Mae dogfen Polisi ac Arfer presennol y Comisiwn ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2017 wedi'i seilio ar y system 'y Cyntaf i'r Felin'. Mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer gwneud argymhellion y bydd pob ward etholiadol yn cael ei chynrychioli gan rhwng un a phedwar aelod, yn dibynnu ar nodweddion y ward.

9. Cyn dechrau'r rhaglen o arolygon etholiadol 10 mlynedd yn 2023, bydd y Comisiwn yn adolygu ac ymgynghori ar ei ddogfen Polisi ar Arfer a'i bolisi maint Cynghorau. Os bydd deddfwriaeth yn cael ei phasio, mae'r Comisiwn yn bwriadu ymgynghori ar sut y bydd yr arolygon yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r pedwar categori canlynol: -

a) Prif Awdurdod sy'n defnyddio'r system y Cyntaf i'r Felin
b) Prif Awdurdod sy'n defnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy
c) Prif Awdurdod wedi'i Gyfuno/Ailstrwythuro sy'n defnyddio'r system y Cyntaf i'r Felin
ch) Prif Awdurdod wedi'i Gyfuno/Ailstrwythuro sy'n defnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy

10. O ystyried ymrwymiadau gwaith hysbys yr Ysgrifenyddiaeth ar yr adeg hon, mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol ar y Comisiwn i ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori sy'n angenrheidiol. Bydd y broses hon yn hanfodol oherwydd bydd y ddogfen Polisi ac Arfer a ddatblygir cyn 2023 yn sail i bob arolwg hyd at ddiwedd 2033. Prif effaith symud i system cynrychiolaeth Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yw y byddai arolwg yn debygol o fod wedi'i seilio ar wardiau etholiadol aml-aelod, mwy o faint sy'n cynnwys rhwng 3 a 6 o aelodau.

11. Yn rhan o'r cylch presennol hwn o arolygon, trefnwyd y 22 arolwg o flaen llaw ac fe'u rhaglennwyd dros bedair blynedd a hanner, gyda phob arolwg yn cymryd hyd at ddwy flynedd i fodloni'r gofynion deddfwriaethol. Ar gyfer y rhaglen nesaf, disgwylir y byddai'r arolygon o Brif Awdurdodau y mae eu poblogaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn cael eu cynnal ar ddechrau'r cylch.

12. Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiwn amser i gynnal un ymgynghoriad yn unig ar ei Gynigion Drafft. Gobeithir y byddai digon o hyblygrwydd o fewn cylch 10 mlynedd i gynnal ymgynghoriad ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â chynigion yr ystyrir eu bod yn ddadleuol neu lle yr awgrymir newidiadau

ymarferol i ffiniau yn ystod y cyfnod ymgynghori ar Gynigion Drafft. Mae hyn yn debygol o ymestyn y cylch arolygu gan oddeutu chwe mis.

13. Pe byddai'r Comisiwn yn cael ei gyfarwyddo i gychwyn arolwg newydd o ganlyniad i 9 b, c neu ch uchod, byddai'r Comisiwn yn diwygio'r amserlen arolygu i flaenoriaethu'r Prif Awdurdodau yr effeithir arnynt. Pe byddai cyfarwyddiadau o'r fath yn cael effaith ddifrifol ar allu'r Comisiwn i gyflawni rhaglen 10 mlynedd, byddai'r Comisiwn yn ceisio adnoddau ychwanegol gan yr Is-adran Noddi i secondio staff ychwanegol i gwblhau'r gwaith, fel y mae wedi'i wneud ar gyfer y rhaglen gywasgedig bresennol.

**Rhan 1 – Ymestyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol**

14. Wrth ddatblygu ei bolisi Maint Cynghorau, mae'r Comisiwn yn defnyddio ffigurau poblogaeth y cyfrifiad i fodelu niferoedd cynghorwyr ar gyfer pob prif awdurdod. Mae hyn yn sicrhau bod pob preswyliwr, nid dim ond y rhai sy'n gymwys i bleidleisio, yn cael ei ystyried wrth bennu maint Cyngor.

15. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried sawl ffactor wrth greu wardiau etholiadol. Mae'r rhain yn cynnwys y gymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol. Mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried unrhyw anghysondeb rhwng etholwyr sydd wedi'u cofrestru a nifer yr unigolion sy'n gymwys i bleidleisio, yn ogystal â'r etholwyr rhagamcanol ymhen pum mlynedd i sicrhau bod unrhyw argymhellion a wneir yn ystyried patrymau twf yn y dyfodol.

16. Mae data cyfrifiad a data sy'n ymwneud â nifer y bobl sy'n gymwys i bleidleisio ond nad ydynt ar y gofrestr etholiadol yn cael eu darparu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae data etholwyr llywodraeth leol ac amcanestyniadau 5 mlynedd yn cael eu darparu gan y prif awdurdod.

17. Yn ei Lythyr Cylch Gorchwyl diwygiedig yn 2018/19, gofynnwyd i'r Comisiwn ddadansoddi effeithiau ymestyn yr etholfraint ac ystyried effaith bosibl estyniad o'r fath ar arolygon etholiadol presennol y Comisiwn. Wrth ddadansoddi ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed, defnyddiodd y Comisiwn yr unig set ddata a oedd ar gael iddo sy'n rhychwantu Cymru gyfan ac sydd wedi'i rhannu yn ôl oedran a ward etholiadol bresennol. Dyma'r amcangyfrifon canol blwyddyn arbrofol a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Nid oes data penodol ar gael ar nifer y gwladolion tramor nad ydynt yn gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd wedi'u rhannu yn ôl wardiau yng Nghymru. Mae ein dadansoddiad o ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed wedi cael ei gynnwys yn y cyflwyniad hwn.

18. Cadarnhaodd ein dadansoddiad fod preswylfannau pobl ifanc 16 a 17 oed fel arfer wedi'u gwasgaru ar draws y prif awdurdod cyfan ac nad ydynt wedi'u crynhoi o fewn wardiau etholiadol penodol. Mae'r Comisiwn yn fodlon, o ddadansoddi'r data sydd ar gael iddo, na fyddai cyflwyno pobl ifanc 16 a 17 oed i'r cofrestrau yn cael effaith arwyddocaol ar ganlyniad yr arolygon presennol.

19. O ran arolygon y tu hwnt i 2022, dylai'r cofrestrau gael eu diweddaru gan swyddogion Cofrestru Etholiadol i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor nad ydynt yn gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd yn y ffigurau presennol a rhagamcanol. Mae'r Comisiwn o'r farn na fyddai ymestyn yr etholfraint i'r categorïau hyn yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gynnal arolygon.

20. Cyn y rhaglen arolygu nesaf, bydd y Comisiwn yn diwygio ei ddogfen Polisi ac Arfer yn ogystal â'i Bolisi Maint Cynghorau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n gysylltiedig ag ymestyn yr etholfraint, lle y bo'n berthnasol.

**Rhan 1 – Newid Cylchoedd Etholiadol**

21. O ran y cynnig arfaethedig i newid y cylch etholiadol o bedair i bum mlynedd, y brif effaith y byddai hynny'n ei chael ar y Comisiwn yw y gallai mwy o arolygon gael eu cwblhau rhwng pob cylch etholiadol, o bosibl.

**Rhan 1 – Creu cronfa ddata Cofrestru Etholiadol Cymru Gyfan**

22. Byddai'r Comisiwn yn fodlon bod yn gyfrifol am gadw'r gronfa ddata. Byddai angen gwneud cryn dipyn o gynllunio o flaen llaw i ddatblygu capasiti a gallu'r Comisiwn o ran Adnoddau, Staffio, Safleoedd, TG a Diogelwch cyn y byddai mewn sefyllfa i fod yn geidwad.

23. Pe byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am gynnal y gronfa ddata, byddai hynny'n arwain at fuddion effeithlonrwydd oherwydd byddai ganddo fynediad uniongyrchol at ffigurau etholaeth cyflawn a chywir sy'n ofynnol i gynnal arolygon.

**Rhan 9 – Penodi ei brif weithredwr gan y Comisiwn**

24. Mae'r Comisiwn yn croesawu'r pŵer i benodi ei brif weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r is-adran noddi yn Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ei roi mewn sefyllfa debyg i Gyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

**Rhan 9 – Cyfarwyddiadau o dan adran 48 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013**

25. Os bydd y newidiadau deddfwriaethol y cyfeirir atynt uchod yn digwydd, bydd angen i'r Gweinidog allu cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg ychwanegol, rhoi'r gorau i gynnal arolwg neu beidio â chynnal arolwg o gwbl er mwyn sicrhau bod gwaith arolygu'n cael ei gynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.